Aelodaeth is bwyllgor Cymorthdaliadau: Cllrs / Cyng Rob Parkes, Raymond Bartley, Medwyn Williams, Colin Hughes, Roy Tickle, Shereen Devine a Gaynor Wood.

Cofnodion is-bwyllgor Cymorthdaliadau a gynhaliwyd nos Fercher, Ionawr 21ain 2015 am 5.15 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.

Presennol: Y Cynghorwyr Colin Hughes (cadeirydd), Rob Parkes, Roy Tickle, Gaynor Wood, Medwyn Williams a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

Ymddiheuriadau: Cyng. Raymond Bartley a Shereen Devine.

Datganiad Diddordeb: Derbyniwyd y datganiad canlynol:

(1) Cyng Roy Tickle - Cais rhif 2 Clwb Golff Dinbych.

Dywedwyd fod **£20,360.08** ar gael yng nghyllideb cymorthdaliadau (cyfanswm cyllideb cymorthdaliadau yn £50,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol). Ystyriwyd saith o geisiadau. Cytunwyd i argymell y canlynol ynglŷn â phob un o'r ceisiadau

1.Ford Gron Dinbych. Cais blynyddol ôl-weithredol ar gyfer Gŵyl Gwrw Dinbych 2014. Gofynnwyd am £350. Gohiriwyd y cais gan y cyngor er mwyn cael mwy o wybodaeth ynglŷn â pha elusennau a gefnogir a mantolen / cyfrifon, oedd bellach wedi eu derbyn. Cytunwyd i argymell grant o £350 fel y gofynnwyd (A.137).

2.Clwb Golff Dinbych. Cais am grant o £3,000 tuag at gostau o £3,180 i brynu adeilad wedi ei wneud o goed ac ati er mwyn gallu arlwyo allan ar y cwrs golf. Gohiriwyd y cais gan y cyngor er mwyn cael diweddariad ar gyfrifon / sefyllfa ariannol y clwb, oedd bellach wedi ei dderbyn. Cytunwyd i argymell grant o £3,000 fel y gofynnwyd (A.137).

3.Theatr Twm o'r Nant. Cais blynyddol i dalu premiwm yswiriant y theatr- gofynnwyd am £2,493.14. Nodwyd fod y cyngor wedi talu'r premiwm dros nifer o flynyddoedd. Cytunwyd i argymell grant o £2,493.14 fel y gofynnwyd (A145).

4.Relate Cymru. Apêl genedlaethol. Cytunwyd i argymell grant o £100 yn unol â pholisi'r cyngor (A.137).

5.Breast Cancer Care Cymru. Cais am y tro cyntaf. Cytunwyd i argymell grant o £100 yn unol â pholisi'r cyngor (A.137).

6.Denbigh Community First Responders. Cais am £1,000 tuag at gostau o £2,000 i brynu defibrillator hyfforddiadol, cyfarpar, paciau popeth a recriwtio. Cytunwyd i argymell grant o £1,000 fel y gofynnwyd (A.137).

7.Clwb Rygbi Dinbych Mini Juniors. Cais am £1,000 tuag at gostau o £7,000 i ariannu taith rygbi i bum tîm - £200 y tîm. Cytunwyd i argymell grant of £1,000 fel y gofynnwyd (A.137). Cytunwyd hefyd i ofyn am i'r grant gael ei gydnabod mewn rhyw ffordd.

Cyfanswm grantiau a argymhellwyd - **£8,043.14** gan adael balans o **£12,316.94** yng nghyllideb cymorthdaliadau ar gyfer y ddau fis oedd yn weddill yn y flwyddyn ariannol bresennol.

Terfynwyd y cyfarfod am 5.36 o'r gloch.